## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fai, 2025 yn Neuadd Goffa Penmorfa.

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Presennol: | Richard Williams (Cadeirydd), John Jones (Garndolbenmaen), Huw Pritchard , Raymond Jones (Pentrefelin), Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cyngor Gwynedd) |
| 2. | Ymddiheuriadau: | Cynghorydd Stephen Churchman (Cyngor Gwynedd), Clifford Williams, Enid Egginton (Garndolbenmaen), Jess Williams (Penmorfa) |
| 3. | Ddim yn bresennol: | Neb |
| 4. | Datgan Buddiant: | GEH a MLW – Eitem 15 |
| 5. | Cywirdeb y cyn-gofnodion : | RP yn cynnig a JT yn eilio. |
| 6. | Materion yn codi o'r cyn-gofnodion: | **<u>Cilffordd Cyfyngedig Pentrefelin</u>** – Rhannwyd sylwadau wnaethpwyd gan yr Adran Briffyrdd ar y ceisiadau cynllunio i adeiladu'r ddau eiddo ar hyd y gilffordd yma. Penderfynwyd bod angen ymchwilio ymhellach. Clerc i wneud hyn.<br><br>**<u>Biniau Halen</u>** – JT yn cynnig ymweld ar lleoliadau. |
| 7. | Mynwentydd: | **<u>Mynwent Llanfihangel y Pennant</u>** – Adroddiad wedi'i dderbyn bod wal y fynwent wedi disgyn ac angen ei atgyweirio. Clerc i wneud ychydig o ymholiadau ac i ymateb i'r person adroddodd yn nodi ein bod yn gwneud ychydig o ymholiadau ac y byddwn mewn cyswllt mor fuan â phosib.<br><br>*** Ymunodd GE<br><br>**<u>Mynwent Bethel, Golan</u>** – Adroddwyd fod gwaith wedi'i gwblhau yn y fynwent yn ddiweddar. Soniwyd bod un darn concrid ychydig yn sigledig ac angen ei ail wneud.<br><br>Trafodwyd dyfynbris gan yr un contractwr ar gyfer gwaith pellach o osod slabiau i ddiffinio'r ardal rhwng claddu llwch a chladdu plant a hefyd y gwaith o drwsio'r lander ar y sied. Roedd y dyfynbris yn cynnwys pris o waredu pridd, awgrymwyd bod angen cadw'r pridd yn y fynwent yn hytrach na'i waredu. Soniwyd bod angen cywiro a thrwsio'r concrid sigledig yn gyntaf cyn cychwyn ar y gwaith yma. MLW yn cynnig derbyn y dyfynbris ar yr amod bod y gwaith cywiro yn cael ei wneud i gychwyn a bod y pridd yn cael ei gadw yn y fynwent yn hytrach na'i waredu, RP yn eilio.<br><br>Soniwyd bod hefyd angen gwirio os oes yna "*soakaway*" o dan y gwair ger y sied – Clerc i edrych ar gynlluniau'r fynwent. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Soniodd y Clerc ei bod wedi derbyn cais gan deulu drwy'r Ymgymerwyr Pritchard a Griffiths i godi tywarchen bychan ar fedd teuluol ym Mynwent Bethel i gladdu ychydig o lwch. Nodwyd nad oes gwrthwynebiad i'r cais yma gan ei fod wedi ei wneud drwy'r sianelau cywir. Awgrymwyd y dylai'r Clerc gysylltu gydag Unllais Cymru i gael arweiniad pellach er mwyn cynnwys canllawiau ar gyfer ceisiadau o'r fath yn ein rheoliadau claddu.<br><br>Mae'r fynwent wedi cael ei thorri am y tro cyntaf ac mae canmoliaeth wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd<br><br>**<u>Mynwent Prenteg</u>** – Adroddwyd fod y fynwent wedi cael ei thorri am y tro cyntaf ac yn edrych yn daclus iawn. Soniwyd hefyd bod cwyn wedi'i dderbyn unwaith eto am gyflwr ffordd y fynwent. GE wedi ymweld â'r fynwent mewn cerbyd isel - ni welodd unrhyw broblem. |
| 8. | Llwybrau Cyhoeddus: | Y contractwr wedi dechrau torri llwybrau Pentrefelin.<br><br>RJ wedi cysylltu gyda'r Uned Llwybrau parthed y gwaith sydd angen ei wneud ar y llwybr heibio Eglwys Ynys Cynhaearn tuag at y traeth. Dywedodd fod yr Uned Llwybrau yn aros i glywed yn ôl gan asiantaethau megis Cyfoeth Naturiol Cymru cyn allent wneud unrhyw welliant i'r llwybr yma.<br><br>Adroddwyd fod yna goeden wedi disgyn ar draws llwybr Capel Horeb i lawr am Tai Newyddion. Clerc i holi am brisiau gan dri person/cwmni.<br><br>Llwybr rhif 5 – soniwyd bod yna dri car yn creu rhwystr ar y llwybr yma cyn cyrraedd Bryn Moel a bod yna geffyl gwyn yn pori rhwng y giât mochyn cyntaf ar ail. Adroddwyd bod y llwybr angen ychydig o sylw hefyd ond ei bod yn amhosib gweld yn iawn ar hyn o bryd oherwydd gordyfiant. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r contractwr i ofyn os yw'n bosib torri'r llwybr yn eithaf buan. Ar ôl toriad, bydd angen trefnu i gael cyfarfod safle gyda'r Swyddog Llwybrau. Clerc i drefnu hyn.<br><br>**Llwybr Hendre Cennin** – Soniodd y Clerc fod y contractwr yn bwriadu torri canghennau wythnos yma. Dywedodd EE ei fod wedi gweld cerbydau Cyngor Gwynedd ar safle y diwrnodau diwethaf. Clerc i wirio os wnaeth y contractwr allu torri canghennau. |
| 9. | Adroddiad Pentrefi: | **Pentrefelin:** Mae lloches bws newydd wedi cael ei osod yn yr wythnos ddiwethaf gyda'r brandio Traws Cymru. Soniwyd fod y gwair o amgylch y pentref wedi cael ei dorri a bod angen canmol y gweithwyr am ei wneud mor daclus. Clerc i adrodd am y ganmoliaeth.<br><br>**Golan:** Adroddwyd bod coed ar ochr ffordd ar rhiw Cefn Coch angen ei dorri ac bod angen glanhau'r ffordd. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Penmorfa** – Mae'r contractwr sydd yn torri'r Cae Chwarae yn dymuno rhoi'r gytundeb i fyny. Bydd yn rhaid iddo roi hyn i lawr yn ysgrifenedig i'r Clerc. Adroddwyd fod y cae chwarae wedi derbyn dau doriad hyd yma. Nid yw'r gwaith wedi cael ei wneud i'r safon gytunwyd iddo. Adroddwyd nad yw'r cae chwarae wedi cael ei strimio, fod y gwair o amgylch y *"polytunnel"* heb gael ei dorri ac na godwyd y gwair gafodd ei dorri. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r contractwr i ofyn wrtho drefnu bod y gwaith yn cael ei gwblhau i safon. Ni fydd yn taliad yn cael ei wneud tan mae'r gwaith yma wedi ei gwblhau.<br><br>**Bryncir –** Soniwyd bod y chwarel i weld yn defnyddio loriau wan i gario yn hytrach na cherbydau trwm chwarel. Llai o lwch i weld yn cael ei adael ar hyd y pentref.<br><br>Adroddwyd fod yna bant yn y ffordd ger Pant Glas Cennin. Clerc i gysylltu gyda'r Adran Briffyrdd.<br><br>**Prenteg** – Dim i'w adrodd.<br><br>**Garndolbenmaen** – Dim i'w adrodd<br><br>** RP yn gadael y cyfarfod |
| 10. | Pont y Traeth | Adroddodd GE fod yr ORR wedi dweud fod yr arwydd 'stop' ar y ffordd yn groes i reoliadau ac maent wedi cytuno i'w dynnu, ond mae Cyngor Gwynedd yn rhoi pwysau ar yr ORR i ailfeddwl. Gofynnwyd i'r Clerc fynd â'r mater yma ymhellach at Bennaeth Amgylchedd, sef Dafydd Wyn Williams.<br><br>** Cynghorydd JJ yn gadael y cyfarfod |
| 11. | Archwiliad Mewnol | Adroddodd y clerc bod y llyfrau ariannol wedi mynd at yr archwilydd mewnol. Gobeithir cael y llyfrau yn ôl cyn cyfarfod misol Mehefin er mwyn gallu eu cymeradwyo a'u hanfon at Archwilio Cymru. |
| 12. | Gohebiaeth | **a. Elin Vaughan Pritchard – Cysylltu ar Cyngor Cymuned –** Cytunwyd i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf.<br>**b. Rhybudd Cau Ffordd – Fron Oleu i Fryn Tirion, Garndolbenmaen –** gwaith amnewid polyn – 16/05/2025<br>**c. Carys Fôn Williams – Gwahoddiad Tai ar Daith –** rhannwyd cyn y dyddiad.<br>**ch. Uned Incwm – Anfoneb Etholiadau heb ei dalu –** ymateb i ddweud nad yw'r Cyngor Cymuned yn wrthod ei dalu, ond fod y Cyngor Cymuned yn aros i'r Uned Etholiadau gytuno i ostwng y swm sydd yn ddyledus. |
| 13. | Gohebiaeth Ychwanegol | **a. Zurich –** E-bost Adnewyddu Yswiriant<br>**b. Unllais Cymru –** Hyfforddiant Ebrill hyd at Fehefin<br>**c. Unllais Cymru –** Pwyllgor Ardal – 13/05/2025 – Adeilad Cyngor Tref Caernarfon. Y Clerc a MLW methu mynychu'r cyfarfod yma. |
| 14. | Cynllunio | **Rhestrau:** 30/03, 06/04, 13/04, 20/04, 27/04 |

| | | |
|---|---|---|
| | | **C24/0736/44/LL** - Caffi Bwlch y Moch, Ffordd Prenteg, Porthmadog, LL49 9SN – Bwriad ar gyfer ehangu safle gwefru cerbydau trydan presennol yng Nghaffi Bwlch y Moch trwy ychwanegu tri bae gwefru cerbydau trydan cyflym ac offer ategol. Dim gwrthwynebiad. |
| 15. | Materion Ariannol | **Ceisiadau am Arian**<br><br>**Ysgol y Gorlan, Tremadog –** Mae Ysgol y Gorlan wedi bod yn llwyddiannus unwaith yn rhagor yn yr eisteddfod yn Eifionydd ac ym Mangor ac wedi cael mynd drwodd i gynrychioli Eifionydd yn y Brifwyl ym Mharc Margam. Maent yn gofyn am gymorth ariannol tuag at gostau teithio a mynediad i'r Eisteddfod. Cafwyd dau gynnig – y cynnig cyntaf oedd bod y Cyngor yn cyfrannu £300.00, IE yn cynnig a HP yn eilio. Yr ail gynnig oedd ein bod yn cyfrannu pris mynediad i'r Eisteddfod ar gyfer pob plentyn sydd yn y parti, sef £12.00 y plentyn, GE yn cynnig a RJ yn eilio. Byddai'r rhodd yma yn cael ei wneud allan o gronfa'r Cadeirydd. Penderfyniad y Cadeirydd oedd i gyfrannu £300.00 o'r gronfa.<br><br>**Monitro'r Gyllideb:** Dim gwariant<br><br>**Biliau i'w talu:**<br><br>**Cyflog Clerc** £331.73<br>**Ffôn** £15.00<br>**Cyfrifiadur** £20.00<br>**HMRC** £82.80<br>**Veolia** £34.33<br>**HSBC** £9.00<br>**Rhent Golan** £325.00<br>**Zurich** £959.09<br><br>**Derbyniadau:**<br><br>**Praesept:** £9,000<br><br>**Balansau Cyfrifon:**<br><br>**Cadw** £33,537.55<br>**Cyfredol** £9,436.00 |
| 16. | Dewis Gohebiaeth i'r Wasg/Wefan | - Ethol Cadeirydd / Is Gadeirydd<br>- Cynghorwyr<br>- Ysgol y Gorlan |